

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed Ragfyr 2014

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Jim Boughton, Marion Bettenev, Karen Pugh, Gareth Parry, Gwawr Jones, Janet Charlton, Terry Bullock, Meirion Owen, Siân Godbert, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau - Cyng. Elisabeth Roberts

Datgan diddordeb- Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Aelodau Newydd

Estynnwyd croeso cynnes i Mr Meirion Owen a Mrs Siân Godbert fel aelodau cyfetholedig y Cyngor Cymuned.

Cofnodion - Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed Dachwedd 2014.

Materion yn Codi :

[1] Yr Heddlu

Nid oedd presenoldeb gan yr heddlu

[1.1] Arwyddion/Poster/Di olwg

Nodwyd bod y Cyng. Elisabeth Roberts yn parhau ymlaen ynglŷn â'r mater gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

[1.2] Pont Droed Gorsaf Reilffordd Betws-y-Coed/Cais Cynnal a Chadw

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.3] Arwyddion Gwybodaeth Twristiaeth/ Rhaeadr Ewynnol

Dywedodd y clercc ei fod yn trefnu i gwrdd gyda Mr Glenn Evans ynglŷn â'r lleoliad mwyaf addas.

[1.4] Materion Priffyrdd

[b] Wal gyferbyn a gwersyll fferm yr Hendre ar briffordd yr A5. Dywedodd y clercc nad oedd unrhyw wybodaeth pellach wedi dod i law gan yr Asiantaeth Briffyrdd.

[1.5] Cyhoeddiadau Awtomataidd Gorsaf Reilffordd Betws-y-Coed

Nodwyd yn siomedig nad oedd ateb wedi ei dderbyn gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg.

[1.6] Gofalwr y Neuadd Goffa

Dywedodd y clercc bod Michael a Gemma Hughes wedi ei penodi fel gofalwyr, yn y lle cyntaf am gyfnod o 3 mis.

Y Brif Agenda

[1.7] Materion Cynllunio

[a] Codi byngalo, tir ger fferm yr Hendre, Pentre' Du

[b] Cais ôl- weithredol i gadw peiriant " twll yn y wal " Garej Shell Pont Waterloo.

[c] Adeiladu ramp newydd er mwyn darparu mynediad i'r anabl, Oriel Alison Bradley, Ffordd Caergybi.

[d] Estyniad i lety'r perchennog ar gyfer ystafelloedd ychwanegol ar gyfer y gwesty a.y.b. Gwesty Craig- y- Dderwen,
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r pedwar cais uchod.

[1.8] Materion Ariannol

[b] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod Tachwedd 2014.

[b] Y Rhoadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Tachwedd 2014.

[1.9] Difrod/Balconi'r Neuadd Goffa

Dywedodd y clerch bod difrod wedi ei wneud i amryw o seddi yn ogystal ag i'r metel . Nid oedd unrhyw adroddiad o gamymddwyn wedi ei wneud gan y gofalwr. Y clerch i wneud ymholiadau ar gyfer ei atgyweirio.

[2] Gwahoddiad Garddwest Palas Bucingham

Penderfynwyd bod enwau'r Cadeirydd a'i westai yn cael eu cyflwyno i Un Llais Cymru.

[2.1] Tyllau yn Ffordd

Y clerch i dynnu sylw at y canlynol

[a] Tyllau ym Maes Parcio Pont-y-Pair

[b] Twll yn y ffordd gyferbyn HSBC.

[c] Twll gyferbyn ar fynedfa i'r goedwig ger Dolgethin.

Cadeirydd_____